Adroddiad i'r Cabinet

Dyddiad y cyfarfod: 23 Tachwedd 2021

Aelod Arweiniol / Swyddog: Y Cynghorydd Bobby Feeley / Phil Gilroy

Awdur yr Adroddiad: Phil Gilroy

Teitl Y Wybodaeth Ddiweddaraf am gyfleuster Meifod

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn dilyn yr argymhelliad gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac yn cynnig ailagor Meifod yn ddiogel cyn gynted â phosibl.

1.2. Mae Meifod yn wasanaeth cyfleodd gwaith uchel ei barch i oedolion ag anableddau dysgu a gaiff ei reoli gan y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli mewn uned ffatri a rentir yn Ninbych sy'n cynhyrchu ac yn gwerthu cynnyrch coed.

1.3. Mae'r cyfleuster wedi bod ar gau ers mis Mawrth 2020 yn sgil y pandemig Covid-19 ac o ganlyniad, mae'r Cyngor wedi cymryd y cyfle i ystyried dyfodol y cyfleuster.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae'r Aelod Arweiniol yn fodlon bod yr opsiynau mewn perthynas â dyfodol Meifod wedi cael eu hystyried yn llawn gan fudd-ddeiliaid perthnasol, Grŵp Tasg a Gorffen y Pwyllgor Craffu Perfformiad a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad. Mae bellach angen penderfynu a ddylid ailagor y cyfleuster neu beidio.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Ailagor Meifod fel gwasanaeth sy'n cael ei gynnal gan y Cyngor ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu cyn gynted ag y mae'n ddiogel, yn dilyn y buddsoddiad hanfodol i'r adeilad/cyfleusterau presennol. Rhagwelir y byddai'r gwasanaeth yn gallu ailagor erbyn mis Chwefror 2022, ond fe allai fod yn gynt os bydd y gwaith yn cael ei gwblhau'n gyflym.

3.2. Bod Swyddogion yn darparu opsiynau i Aelodau eu hystyried drwy'r broses wleidyddol sefydledig mewn perthynas â:

3.2.1 ffyrdd newydd o weithio ym Meifod i wella ddysgu a sgiliau ar draws ystod o weithgareddau gan gynnwys gweithio gyda choed.

3.2.2 dulliau darparu gwasanaeth amgen i'w gweithredu ym Meifod gyda'r bwriad o wella cynaliadwyedd hirdymor y gwasanaeth pan ddaw prydles yr adeilad i ben mewn 4 blynedd.

3.3 Bod Swyddogion yn sefydlu grŵp budd-ddeiliaid, gan gynnwys aelodau teulu cynrychiadol ac unigolion sy'n mynychu Meifod neu eu heiriolwyr i sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n llawn gydag ailagor y gwasanaeth ac yn datblygu unrhyw opsiynau i'w gweithredu yn y dyfodol.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Mae Meifod yn gyfleuster gwerthfawr i gannoedd o oedolion ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr sydd wedi elwa o wasanaeth y Cyngor am bron i 50 mlynedd. O'r herwydd, mae'r cyfleuster yn rhan allweddol o'r gymuned leol.

4.2. Bu'n rhaid cau'r cyfleuster ddiwedd mis Mawrth 2020 yn unol â chyfyngiadau Covid Llywodraeth Cymru ac nid yw'r cyfleuster wedi ailagor am nifer o resymau gan gynnwys iechyd a diogelwch, cadw pellter cymdeithasol, staffio, a gwaith atgyweirio a chynnal a chadw'r adeilad.

4.3. Cyn ystyried ailagor Meifod, mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â budd-ddeiliaid perthnasol gan gynnwys y rheiny sy'n mynychu'r cyfleuster, eu teuluoedd a gofalwyr mewn perthynas â'r opsiynau posibl amrywiol ar gyfer dyfodol y cyfleuster.

4.4. Rhoddodd swyddogion wybod am bob un o'r materion perthnasol, gan gynnwys yr ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu, i Grŵp Tasg a Gorffen y Pwyllgor Craffu Perfformiad a sefydlwyd yn wreiddiol ychydig o flynyddoedd yn ôl i ystyried cynigion i foderneiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol mewnol.

4.5. Cyflwynodd y Grŵp Tasg a Gorffen eu canfyddiadau a'u hargymhellion i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 14 Hydref. Roedd y Pwyllgor Craffu, yn amodol ar rai diwygiadau, yn cytuno â chasgliadau'r Grŵp Tasg a Gorffen a daethpwyd i'r canlyniad y dylai'r

Cabinet ystyried eu hargymhellion (gweler argymhellion y Pwyllgor Craffu isod yn yr adran am ymgynghoriadau).

4.6. Amcangyfrifir y bydd y gost untro o ailagor y cyfleuster yn oddeutu £20,000-£25,000 a bydd cais yn cael ei gyflwyno i'r Gronfa Adfer Gofal Cymdeithasol. Rhagwelir y bydd modd cwblhau'r gwaith yn y misoedd nesaf. Ar sail hynny, rhagwelir y bydd modd ailagor Meifod erbyn mis Chwefror, neu'n gynt os caiff y gwaith ei gwblhau'n gynt.

4.7. Yn y tymor byr, rhagwelir y bydd y costau blynyddol y bydd y Cyngor yn eu hwynebu er mwyn darparu'r cyfleuster yn cynyddu yn sgil cynyddiadau mewn costau gweithredu (e.e. costau deunyddiau crai, gwres ac ati). Mae'n annhebygol y bydd y cynnydd hwn yn cael ei wrthbwyso gan gynnydd mewn gwerthiant.

4.8. Rhagwelir hefyd yn y tymor byr y bydd llai o oedolion ag anableddau dysgu'n mynychu'r cyfleuster gan bod rhai unigolion yn ymgysylltu â gweithgareddau a gwasanaethau mewn lleoliadau eraill ac mae'n well gan oedolion iau ddefnyddio gweithgareddau cymunedol amgen sydd wedi cael eu datblygu ers i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ddod i rym. Bydd swyddogion, fodd bynnag, yn ystyried y ffordd orau i hyrwyddo'r defnydd o'r cyfleuster ar draws budd-ddeiliaid perthnasol.

4.9. Bydd prydles Meifod yn dod i ben ym mis Medi 2025, sy'n rhoi amser i ni hyrwyddo'r cyfleuster i fudd-ddeiliaid perthnasol eraill, ystyried cyflwyno gweithgareddau amgen gan gynnwys prosiectau ailgylchu ac addasu (gan barhau â'r gwaith pren presennol), ac ystyried dulliau darparu gwasanaeth newydd sy'n cydymffurfio â phob deddfwriaeth berthnasol a pholisi iaith Gymraeg y Cyngor. Y nod yw gwella cynaliadwyedd hirdymor y cyfleuster, yn ogystal â pharhau i ddarparu gweithgareddau cymorth o ansawdd uchel a strwythuredig i oedolion ag anableddau dysgu.

4.10 Ystyrir bod cyflwyno gweithgareddau amgen yn bwysig o ran gwneud y cyfleuster yn fwy deniadol a chynhwysol i ystod ehangach o'n preswylwyr diamddiffyn. 4.10 Gallai amrywio'r cynnig hefyd gael effaith gadarnhaol ar ddyheadau amgylcheddol ehangach y Cyngor, yn arbennig drwy gyflwyno gweithgareddau ailddefnyddio/uwchgylchu eitemau i'w gwerthu ymlaen fel rhan o'r cynnig manwerthu/masnachu ehangach.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae cefnogi pobl sydd ag anableddau dysgu i ddysgu a datblygu sgiliau newydd yn cefnogi'r flaenoriaeth gorfforaethol i ddatblygu gwytnwch ac annibyniaeth.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Cyn y pandemig, roedd y costau gros blynyddol o gynnal Meifod yn oddeutu £240,000, gyda gwerthiant cynnyrch coed o oddeutu £65,000, sy'n golygu cost flynyddol net o oddeutu £170,000. Mae costau cynnal blynyddol Meifod yn debygol o fod wedi cynyddu ers y pandemig, yn sgil materion megis costau cynyddol deunyddiau crai ar gyfer cynnyrch coed, costau gwresogi cynyddol, rhent cynyddol.

6.2. Mae'n annhebygol y bydd y costau ychwanegol hyn yn cael eu gwrthbwyso gan yr incwm cynyddol o werthu cynnyrch coed, fodd bynnag, gellir asesu'r effaith gyffredinol fel rhan o'r adolygiad hirdymor fel yr amlinellir yn yr Argymhellion.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Mae grŵp budd-ddeiliaid yn cael ei sefydlu i weithio gyda dinasyddion unigol, eu teuluoedd a gofalwyr i ddeall 'beth sy'n bwysig' iddyn nhw mewn perthynas â dysgu a datblygu sgiliau. Bydd y grŵp hwn hefyd yn cydweithio ar gwblhau'r Asesiad o Effaith ar Les.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cwblhawyd ymarfer ymgysylltu gyda budd-ddeiliaid allweddol, ac mae'r canlyniadau'n dangos fod Meifod yn werthfawr i nifer o bobl. Fodd bynnag, nododd rhai unigolion nad ydynt yn dymuno dychwelyd i Feifod, roedd eraill yn teimlo'n nerfus ac yn ansicr am ddychwelyd gan bod Covid-19 yn dal i fodoli yn y gymuned. Bydd Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yn parhau i weithio gyda phob budd-ddeiliad, i ystyried opsiynau ar gyfer bodloni eu hanghenion naill ai ym Meifod neu mewn lleoliad arall pe dymunent.

8.2. Ystyriodd y Pwyllgor Perfformiad, yn ei gyfarfod ar 14 Hydref, adroddiad gan y Grŵp Tasg a Gorffen a oedd wedi archwilio'r opsiynau gwasanaeth i'r dyfodol, a'r adborth ymgysylltu gan fudd-ddeiliaid allweddol. Yn dilyn dadl drylwyr ar y materion a gyflwynwyd, mae'r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn argymell i'r Cabinet:

(i) bod Meifod yn cael ei ailagor cyn gynted a phosib fel gwasanaeth sy'n cael ei redeg gan y Cyngor yn yr adeilad presennol, gyda buddsoddiad ychwanegol yn cael ei wneud yn y gwasanaeth a ddarperir yno.

(ii) bod gwaith yn cychwyn i archwilio pob cyfle am ffyrdd newydd o weithio i wella a datblygu Meifod, yn cynnwys y posibilrwydd o ddod o hyd i sefydliad allanol/menter gymdeithasol i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau yn yr adeilad Meifod presennol (nid oes angen i'r rhain o reidrwydd fod yn weithgareddau gwaith coed) gyda'r nod o archwilio a sicrhau cynaladwyedd hirdymor Meifod, a

(iii) bod darpariaeth gwasanaeth y dyfodol yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth bresennol a Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r problemau a'r opsiynau o ran y ffordd ymlaen. Mae nifer o gyfyngiadau mewn perthynas â beth allai ddigwydd, megis hyd y brydles, sy'n golygu bod cynnydd mewn costau tymor byr yn debygol. Fodd bynnag, mae opsiynau ar gael a allai ostwng y faich ariannol yn y tymor canolig. Yn amlwg dylid cymryd canlyniadau'r ymgynghoriadau i ystyriaeth hefyd mewn perthynas â'r opsiynau hyn a bydd yr adran gyllid yn ceisio gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth yn y dyfodol i gryfhau rhagolygon ariannol yr opsiynau amrywiol i helpu i lywio'r penderfyniad terfynol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Cyn ailagor y cyfleuster, bydd asesiad risg drylwyr yn cael ei chwblhau gan sicrhau bod yr holl ragofalon hanfodol yn cael eu cymryd er mwyn sicrhau bod Meifod yn cynnig amgylchedd diogel i bawb sy'n mynychu. Bydd Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yn gweithio gyda phob unigolyn i ystyried 'beth sy'n bwysig' a'r ffordd orau i fodloni eu hanghenion unigol wrth symud ymlaen.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae gan yr Awdurdod Lleol y pŵer i benderfynu sut caiff anghenion gofal cymdeithasol eu bodloni drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.